



Aros yn ddiogel ar safleoedd Cadw ledled Cymru



Wrth i'n safleoedd â staff ddechrau ailagor, ein prif flaenoriaeth yw diogelwch ein gweithwyr, ymwelwyr a chymunedau ehangach Cymru. Felly, byddwch yn sylwi ar rai newidiadau yn ystod eich ymweliad nesaf.

Bydd y ddogfen hon yn rhoi gwybod i chi beth i'w ddisgwyl — o'r mesurau rydyn ni wedi'u rhoi ar waith i wneud ein henebion yn ddiogel i'r newidiadau rydyn ni'n gofyn i chi eu gwneud, i'w cadw felly.

Gyda'n gilydd, gallwn amddiffyn cestyll, abatai a thai hanesyddol Cymru yn erbyn bygythiad coronafeirws.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyn eich ymweliad



Dyma'r camau rydyn ni'n gofyn i bob ymwelydd eu cymryd cyn cyrraedd safle Cadw sydd wedi ailagor:

Sut y gallwch chi gadw ein safleoedd sydd â staff yn ddiogel – cyn eich ymweliad:



+ Rhaid i Aelodau a'r rhai nad ydynt yn Aelodau archebu eu tocynnau ar-lein ar aelodaethcadw.gwasanaeth.llyw.cymru/digwyddiadau

+ Cyrhaeddwch ar amser; os gwelwch yn dda (dim mwy na 15 munud yn gynnar neu'n hwyr).

+ Dylai eich tocyn gael ei argraffu neu ei gyflwyno ar ffôn clyfar; ond yr opsiwn digidol rydyn ni'n ei ffafrio. Gwnewch yn siŵr ei fod yn barod wrth gyrraedd i gyfyngu ar y ciwiau sydd ar y safle.

+ Er mwyn cael mynediad, mae'n rhaid i aelodau gyflwyno eu cerdyn aelodaeth. Yn yr un modd, dim ond gyda phrawf o gonsesiwn y gellir defnyddio pob tocyn consesiwn arall.

+ Os caiff ei gynghori gan lechyd Cyhoeddus Cymru, dewch â'ch mwgwd neu'ch gorchudd wyneb eich hun gyda chi. Bydd hyn yn helpu i'ch cadw chi, ein hymwelwyr eraill a'n gweithwyr yn ddiogel.

+ Dewch â dŵr a bwyd o'ch cartref os bydd ei angen arnoch, os gwelwch yn dda — nid oes gan bob un o'n safleoedd ffynhonnau dŵr na pheiriannau gwerthu, a bydd ein caffis a'n siopau rhoddion ar gau.

+ Ceisiwch osgoi teithio'n bell i'n safleoedd, os gwelwch yn dda, a pheidiwch â threfnu i gwrdd â mwy na chwech o bobl o un cartref arall.

+ Edrychwch ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol cyn i chi ymweld ag unrhyw un o'n safleoedd. Bydd hyn yn rhoi'r holl wybodaeth ddiweddaraf i chi.

+ Os ydych yn dangos unrhyw symptomau coronafeirws neu'n teimlo'n sâl, peidiwch ag ymweld ag unrhyw un o'n henebion. Byddwn yn hapus i ad-dalu eich tocyn os bydd y sefyllfa hon yn codi.



Hylendid



Dyma'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gadw ein safleoedd â staff yn lân:

Newidiadau y byddwch yn sylwi arnyn nhw yn ein safleoedd: hylendid



- + Rydyn ni wedi cynyddu ein harferion hylendid yn helaeth, gyda glanhau dwfn rheolaidd wedi'i drefnu yn ogystal â diheintio 'pwyntiau cyffwrdd' allweddol, gan gynnwys dolenni drysau, rheiliau, sgriniau rhyngweithiol, ac ati bob dydd.
- + Mae gorsafodd diheintio dwylo wedi'u cyflwyno, i chi eu defnyddio ar ôl cyrraedd a thrwy gydol eich ymweliad.
- + Bydd llawer o'n ceidwaid yn gwisgo PPE — er eu diogelwch nhw a chi. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio mygydau a menyg tafladwy ar gyfer tasgau penodol.
- + Bydd y rhan fwyaf o'n cyfleusterau toiled ar agor, gyda chapasiti cyfyngedig (edrychwch ar dudalennau gwe'r safleoedd unigol am ragor o wybodaeth cyn ymweld). Bydd ein timau'n rheoli'r manau hyn ac yn eu glanhau'n rheolaidd, felly mae'n bosibl y bydd rhaid aros am ychydig i ddefnyddio'r cyfleusterau.
- + Mae pob un o'n ceidwaid wedi cael hyfforddiant iechyd a diogelwch, sy'n sicrhau eu bod yn gallu gweithio mewn ffordd ddiogel o fewn yr amgylchedd mwyaf diogel posibl.



Ymbellhau cymdeithasol



Dyma'r camau rydyn ni wedi eu cymryd i sicrhau y bydd ymbellhau cymdeithasol yn gweithio'n effeithiol yn ein safleoedd â staff:

Newidiadau y byddwch yn sylwi arnyn nhw yn ein safleoedd: **ymbellhau cymdeithasol**



- ✦ Hyd y gellir rhagweld, bydd pob un o'n safleoedd â staff yn gweithredu ar gapasiti cyfyngedig gyda slotiau amser penodol ar gyfer pob ymwelydd unigol.
- ✦ Er mwyn gorfodi'r cyfyngiadau hyn, mae'n rhaid i ymwelwyr (aelodau a'r rhai nad ydynt yn aelodau) drefnu eu hymweliad ar-lein ymlaen llaw ar amser a dyddiad o'u dewis.
- ✦ Mae'n bosibl y bydd lwfansau amser yn amrywio o heneb i heneb yn dibynnu ar faint a ffurfiant y safle. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf yn cynnig yr opsiwn o gael ymweliad bore neu brynhawn. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei nodi'n glir ar y dudalen archebu ar gyfer pob safle.
- ✦ Er y bydd ein hymweliadau wedi'u neilltuo am amser yn cyfyngu ar giwiau ar y safle, rydyn ni wedi paratoi arwyddion 2m ar y llawr a chanolfuriau er mwyn sicrhau y gellir ymbellhau'n gymdeithasol mewn ciwiau.
- ✦ Er mwyn osgoi'r defnydd torfol o ofod dan do, bydd rhai o'n safleoedd mwy â staff yn defnyddio pebyll tu allan i wirio a sganio tocynnau.
- ✦ Mewn rhai safleoedd sydd â chapasiti mwy rydyn ni hefyd wedi gosod sgriniau rhannu plastig wrth y desgiau mynediad — bydd hyn yn ein galluogi i gadw pellter diogel rhwng ceidwaid ac ymwelwyr.
- ✦ Rydyn ni wedi gosod saethau cyfeirio a llwybrau unffordd yn llawer o'n henebion — yn ogystal ag arwyddion atgoffa defnyddiol ledled y safle i aros 2m ar wahân o hyd.
- ✦ Er eich diogelwch, bydd gan rai o'n henebion gyfyngiadau ar fynediad ar y safle, gyda rhai ystafelloedd, ardaloedd ac atyniadau penodol i safleoedd ar gau i'r cyhoedd. Pan fo hyn yn digwydd, bydd tâl mynediad newydd yn berthnasol. Edrychwch ar dudalennau'r safleoedd unigol i gael rhagor o wybodaeth.
- ✦ Bydd ein siopau rhoddion ar agor — ond gyda mesurau ymbellhau cymdeithasol llym ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd.
- ✦ Bydd y caffi yng Nghastell Harlech ar agor gyda mesurau ymbellhau cymdeithasol newydd yn eu lle. Fodd bynnag, mae angen addasu'r caffi yng Nghastell Coch ymhellach er mwyn sicrhau profiad diogel i ymwelwyr; felly bydd yn parhau i fod ar gau hyd nes ceir rhybudd pellach.



Yn ystod eich ymweliad



Dyma'r camau mae'n rhaid i bob ymwelydd eu cymryd wrth fwynhau eu hymweliad â safle Cadw sydd wedi ailagor:

Sut y gallwch chi gadw ein safleoedd â staff yn ddiogel – yn ystod eich ymweliad:



- + Dilynwch gyfarwyddiadau pob arwydd newydd — maen nhw wedi cael eu gosod er eich diogelwch.
- + Yn fwy penodol, edrychwch am wybodaeth am lwybrau unffordd rydyn ni'n eu gosod yn rhai o'n safleoedd. Os nad ydych yn siŵr, dilynwch y saethau!
- + Parchwch ein staff ac ymwelwyr eraill drwy gynnal pellter cymdeithasol o 2m bob amser.
- + Defnyddiwch ein gorsafoedd diheintio dwylo yn rheolaidd a golchwch eich dwylo'n drylwyr ar ôl defnyddio ein cyfleusterau toiled.
- + Byddwch yn ymwybodol o'r amser rydych wedi'i dreulio ar y safle, gan gwblhau eich ymweliad o fewn eich terfyn amser penodol.
- + Byddwch yn wiliadwrus — os yw ymddygiad ymwelydd arall yn peri pryder i chi neu eich bod yn dod yn ymwybodol o unrhyw beth a allai fod yn annïogel, siaradwch ag aelod o staff neu rhwch wybod i ni drwy'r arolwg sydd ar gael yma: llyw.cymru/cadwchynddiogel. Bydd eich adborth yn ein helpu i gadw ein safleoedd yn ddiogel i ymwelwyr a cheidwaid fel ei gilydd.
- + Os byddwch yn dechrau teimlo'n anhwylyd neu'n dangos symptomau coronafeirws, dylech rybuddio aelod o staff o bellter cymdeithasol diogel a gwneud trefniadau i adael y safle. Os oes angen sylw meddygol brys arnoch ffoniwch 999.

Ymwelwch â'n
safleoedd, yn ddiogel.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government